# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 23 Tachwedd 1999

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

### Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU (Effaith ar Gymru)

**C6 Jocelyn Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru am effaith rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar Gymru? (OAQ2124)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fel y dywedais yn yr ateb a roddais i Rhodri Glyn Thomas ar 2 Tachwedd (OAQ1643VB), byddaf yn fynych yn trafod cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer sesiwn nesaf y Senedd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Yr wyf yn sicrhau ei fod yn ymwybodol o farn y Cynulliad, yn fwy cyffredinol, yn ogystal â barn y Cabinet, fel ei fod yn gallu cyfrannu i drafodaethau'r Cabinet yn yr un modd ag yr oeddwn i'n ei wneud tra'n Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

O dan adran 31 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, rhaid i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ymgynghori â'r Cynulliad ar y rhaglen ddeddfwriaethol bob blwyddyn. Mae'r Trefnydd wedi cyhoeddi y bydd hyn yn cael ei gynnal ar 30 Tachwedd ac ar 8 Rhagfyr. Bydd Mr Murphy yn bresennol ar y diwrnod cyntaf a bydd Mr Hanson yn bresennol ar yr ail ddiwrnod.

### Arian Cyfatebol Amcan 1 (Trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru)

**C7 Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru am gyllid cyfatebol ar gyfer ardaloedd Amcan 1 yng Nghymru? (OAQ2118)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fel y dywedais sawl gwaith o'r blaen, yr wyf yn cyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gyson ac yr ydym yn trafod sawl pwnc, gan gynnwys oblygiadau ariannol Amcan 1 ar gyllideb Cymru.

### Fformwla Ariannu Gwasanaethau'r Heddlu

**C8 Jenny Randerson:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Cartref am y newidiadau i fformwla ariannu gwasanaethau'r heddlu yng Nghymru? (OAQ2111)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae fformwla ariannu gwasanaethau'r heddlu yn cynnwys lluoedd Lloegr a Chymru. Yr wyf wedi cael sawl sgwrs gyda'r Ysgrifennydd Cartref ynghylch fformwla ariannu'r heddlu.

### Ffatri'r Ford Motor Company ym Mhen-y-Bont ar Ogwr

**C9 Alun Cairns:** Beth yw'r datblygiadau diweddaraf yn yr ymgynghoriadau rhwng y Prif Ysgrifennydd, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Trysorlys ynghylch ffatri'r Ford Motor Company ym Mhen-y-bont ar Ogwr? (OAQ2129)

**Y Prif Ysgrifennydd:**Yr wyf wrth fy modd gyda phenderfyniad Ford i gyfnerthu cynhyrchu ei gyfres peiriannau modur Zetec SE ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae hyn yn dangos bod gan y cwmni ffydd yn y ffatri a bydd hyn yn diogelu swyddi yn y ffatri ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Mae swyddogion y Cynulliad a minnau wedi gweithio'n agos gyda'r cwmni dros y misoedd diwethaf i sicrhau bod popeth yn cael ei wneud i ddiogelu'r buddsoddiad hanfodol hwn.

### Cydgysylltu Rhaglen Amcan 1

**C10 Mick Bates:** A all y Prif Ysgrifennydd esbonio i'r Cynulliad pwy sydd yn gyfrifol am gydgysylltu'r

rhaglen Amcan 1 yng Nghymru, a phwy yn benodol sydd yn gyfrifol am ofalu am y ceisiadau am arian? (OAQ2115)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfrifoldeb pwyllgor monitro'r rhaglen fydd cydgysylltu'r rhaglen Amcan 1. Caiff y pwyllgor ei sefydlu'n ffurfiol y flwyddyn nesaf. Caiff pwyllgor monitro cysgodol ei sefydlu yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd yn cynnwys partneriaid allweddol o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Gweinyddir y ceisiadau am gyllid gan ysgrifenyddiaeth newydd y rhaglen a gyhoeddais yn ystod y ddadl ar Amcan 1 yn y Cyfarfod Llawn y mis diwethaf, ond y pwyllgor monitro a fydd yn gyfrifol am benderfynu ar geisiadau'n derfynol.

### Lleihau Cyllid Ymddiriedolaethau'r NHS ac Awdurdodau Iechyd

**C11 David Melding:** Beth fydd cyfraniad torri ar gyllid ymddiriedolaethau'r NHS a'r awdurdodau iechyd at leihau dieithrwch cymdeithasol? (OAQ2130)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid yw cyllid yr ymddiriedolaethau a'r awdurdodau iechyd yn cael ei dorri. Cyhoeddodd Edwina Hart y gyllideb ddrafft ragarweiniol ar 4 Tachwedd a rhoddodd gynnydd o 7 y cant yng nghyllid yr NHS. Cynigir bod awdurdodau iechyd yn derbyn cynnydd o 6 y cant yn eu dyraniadau dewisol a diogel ar gyfer 2000-01. Mae darparu gwasanaeth iechyd modern ac effeithiol sydd ar gael i bawb yn elfen allweddol ym mrwydr y Cynulliad yn erbyn dieithrwch cymdeithasol.

### Map Ardaloedd Amcan 2

**C12 Janet Ryder:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar hynt y trafodaethau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch map ardaloedd arfaethedig Amcan 2 y DU, yn enwedig mewn perthynas â gogledd-ddwyrain Cymru? (OAQ2132)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae cynigion y DU ar gyfer ardaloedd Amcan 2 wedi eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd, ac yr ydym bellach yn eu trafod gyda'r Comisiwn. Yr ydym yn gobeithio y bydd gennym gytundeb ar y cynigion erbyn tua diwedd eleni. Bydd cyllid dros dro ar gael i ardaloedd, gan gynnwys unrhyw ardal yng ngogledd-ddwyrain Cymru a gafodd ei chynnwys yn rhaglen Wledig 5b 1994-99 ond nad ydyw'n cael ei chynnwys dan y rhaglen Amcan 2 newydd.

### Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU

**C13 Cynog Dafis:** A oes gan y Prif Ysgrifennydd gynlluniau i drafod rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru? (OAQ2126)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn eich cyfeirio at yr ateb a roddais i Jocelyn Davies heddiw wrth ateb cwestiwn 6 (OAQ2124).

### Cau Morglawdd Bae Caerdydd

**C14 Peter Black:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddweud sut y gwnaeth cau morglawdd Bae Caerdydd ar 4 Tachwedd gyfrannu at ymrwymiad y Cynulliad i ddatblygiad cynaliadwy? (OAQ2108)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr oeddem yn ymwybodol o ganlyniadau amgylcheddol y morglawdd o'r dechrau ac mae mesurau lliniaru wedi eu rhoi ar waith i fodloni Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar y CE. Y cam amlycaf yw creu gwarchodfa adar ar wastadeddau Gwent. Mae'r morglawdd wedi bod yn gyfraniad allweddol at ailddatblygu de Caerdydd. Ceir canlyniadau amgylcheddol buddiol o ganlyniad i'r morglawdd, gan gynnwys datblygu dargyfeirio carthffosiaeth a arllwyswyd i'r dŵr dros nifer o flynyddoedd o ddyfroedd Bae Caerdydd, gwell amddiffynfeydd rhag llifogydd a'r cyfle i ddatblygu tyfiant a phlanhigion newydd o fewn y bae cronnedig ei hun.

## Rheoliadau Iechyd a Diogelwch

**C15 Pauline Jarman:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i gyfarfod â Senedd San Steffan ynghylch trosglwyddo y rheoliadau iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â'r gweithle i'r Cynulliad? (OAQ2125)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch eisoes wedi cydnabod yr angen i adeiladu perthynas waith agos gyda'r Cynulliad. Ynghyd â threfniadau'r concordat rhyngadrannol bydd hyn yn sicrhau bod anghenion a buddiannau Cymru yn cael eu cynnwys yn natblygiad iechyd a diogelwch.

Dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 nid oes gennym bwerau i drosglwyddo swyddogaethau'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Erys rheoliadau iechyd a diogelwch yn fater i Weinidogion y DU a Senedd San Steffan.

## Pwerau Is-Ddeddfu'r Cynulliad

**C16 Janet Davies:** O gofio pwysigrwydd sicrhau bod pwerau is-ddeddfu'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwbl eglur, sawl gwaith y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi trafod y rhain gydag aelodau Cabinet San Steffan? (OAQ2122)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nodir pwerau'r Cynulliad i lunio is-ddeddfwriaeth yn glir yn y Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau ynghyd â'r ddeddfwriaeth sylfaenol sydd yn cyflwyno'r swyddogaethau yn uniongyrchol i'r Cynulliad.

Yr wyf wedi trafod gorchmynion trosglwyddo a deddfwriaeth sylfaenol yn gyson gyda fy nghydweithwyr yn Llywodraeth y DU pan oeddwn yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac wedi hynny.

## Blaen-Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU

**C17 David Lloyd:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad am unrhyw drafodaethau y mae wedi eu cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru am flaen-raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU? (OAQ2127)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn eich cyfeirio at yr ateb a roddais i Jocelyn Davies heddiw wrth ateb cwestiwn 6 (OAQ2124).

## Gardd Fotaneg Cymru

**C18 Brian Hancock:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd roi adroddiad gwaith ar ardd fotaneg newydd Cymru? (OAQ2128)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Neuadd Middleton, Sir Gaerfyrddin i fod i gael eu hagor i'r cyhoedd ar 24 Mai 2000. Mae staff yr Ardd Fotaneg Genedlaethol wedi dweud wrthym bod y prosiect yn cadw at yr amserlen a'r gyllideb ar hyn o bryd. Bûm yn ymweld â'r ardd yn ddiweddar ac yr oeddwn yn llawn edmygedd o'r hyn a fydd yn atyniad mawr ac yn drysor cenedlaethol i Gymru.

## Bae Caerdydd

**C19 Phil Williams:** Pwy fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynhyrchu a gweithredu cynllun newydd strategol unedig i ddatblygu Bae Caerdydd yn gydlynol er mwyn sicrhau y bydd yn gwneud lles gwirioneddol i bobl Cymru? (OAQ2117) [R] ***Tynnwyd yn ôl.***

## Owain Glyndŵr

**C20 Owen John Thomas:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd gefnogi'r syniad o ail-enwi'r brif heol i'r

Cynulliad yn Heol Owain Glyndŵr yn deyrnged addas i un o arwyr mwyaf Cymru, yn enwedig o gofio bod y flwyddyn 2000 yn cofnodi chwe chan mlwyddiant gwrthryfel arwrol Glyndŵr dros ein gwlad? (OAQ2119) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Delwedd a Phroffil Cymru**

**C21 John Griffiths:** Pa strategaeth fydd y Prif Ysgrifennydd yn ei harddel i hybu ymhellach ddelwedd a phroffil Cymru drwy'r byd? (OAQ2135)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Cynulliad yn gweithio gyda chyrff ac asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus i ddatblygu dull gweithredu cyd-drefnol a chydlynol ar lefel Cymru gyfan i gynyddu proffil a delwedd Cymru ar y llwyfan rhyngwladol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried rhaglen o ddigwyddiadau a fyddai'n rhoi cyfle i Gymru arddangos ei hun dramor, mewn digwyddiadau rhyngwladol a fyddai yn rhoi llwyfan i Gymru a datblygiad amrywiaeth o ddeunydd cyhoeddusrwydd i gyflwyno delwedd gadarnhaol o Gymru.

**Diwrnod Anabledd**

**C22 Richard Edwards:** A oes gan y Prif Ysgrifennydd gynlluniau ar gyfer trefnu 'Diwrnod Anabledd' pan fyddai holl fusnes y Cynulliad yn cael ei neilltuo i drafod materion yn ymwneud ag anabledd? (OAQ2134)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn deall eich syniad o roi sylw penodol i anghenion pobl anabl, ond trafodwyd hyn yn ddiweddar gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Mae Anabledd Cymru, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn ymgynghorwyr parhaol i'r Pwyllgor. Credai'r Pwyllgor, yn yr un modd ag y credai Anabledd Cymru, bod anabledd yn bwnc rhy bwysig i'w neilltuo i geto un pwnc.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad i drefnu bod ei weithgareddau'n cael eu cynnal mewn modd sydd yn dwys ystyried cyfle cyfartal. Bydd ein Huned Cydraddoldeb a Pholisi ynghyd ag Anabledd Cymru yn edrych sut y gallai'r Cynulliad sicrhau bod materion sydd yn ymwneud ag anabledd yn cael eu cynnwys ym mhrif ffrwd busnes a swyddogaethau'r Cynulliad, nid am un diwrnod penodol ond fel mater o drefn yn ein gwaith dyddiol.

Rhoddir cyfle i'r Cynulliad adolygu ei effeithiolrwydd wrth gyflawni dyletswydd ei rwymedigaeth dan adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru pan fydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn cyflwyno ei adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ym mis Gorffennaf. Byddaf yn tynnu sylw Cadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, Jane Hutt, at y cwestiwn hwn rhag ofn y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried y mater ymhellach, a byddaf yn gofyn iddi roi eu sylwadau i'r Trefnydd a minnau.

**Twristiaeth (Amcan 1)**

**C23 Gareth Jones:** A oes unrhyw gynlluniau i godi proffil twristiaeth yn nogfen raglennu sengl Amcan 1 ar gyfer Cymru? (OAQ2121) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyfle Cyfartal mewn Chwaraeon**

**C24 Jane Davidson:** Pa gamau fydd y Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i sicrhau bod gan blant gyfle cyfartal i gymryd rhan mewn chwaraeon, yn yr ysgol a'r tu allan? (OAQ2110)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae addysg gorfforol yn rhan hanfodol o gwricwlwm cenedlaethol Cymru.

Ym mis Mehefin 1998, cyhoeddodd Peter Hain y byddai rhai elfennau o chwaraeon, megis rhedeg, taflu a neidio, yn parhau i gael eu dysgu fel rhan orfodol o'r cwricwlwm yng Nghymru. Mae yna dystiolaeth gref bod arferion a lunnir gan blant ifanc o oed ysgol gynradd yn parhau yn nes ymlaen yn ystod eu bywydau

ac y bydd plant heini a bywiog mewn gwell sefyllfa i fwynhau bywyd iach a chyflawn pan fyddant yn oedolion.

Mae gweithgareddau awyr agored ac antur yn llunio rhan o'r rhaglenni astudio ar gyfer addysg gorfforol yng nghyfnodau allweddol 2 i 4.

Eleni, lansiodd Cyngor Chwaraeon Cymru Chwaraeon y Ddraig. Bydd y cynllun hwn yn canolbwyntio ar benodi gwirfoddolwyr i gynnig sesiynau chwaraeon allgyrsiol i blant. Mae'r Cyngor yn bwriadu sefydlu cynlluniau Chwaraeon y Ddraig mewn dros hanner ein hysgolion cynradd erbyn 2005. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn 'Strategaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru' y Cyngor Chwaraeon, y mae copi ohoni ar gael yn y Llyfrgell.

Cred Cyngor Chwaraeon Cymru yn yr egwyddor dros gyfiawnder chwaraeon; mae wedi datblygu cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg cydbwysedd sydd yn nifer y bechgyn a nifer y merched sydd yn cymryd rhan. Bydd y Cyngor hefyd yn adolygu sut y cydlynir y chwaraeon a gaiff eu cynnig i bobl anabl ar lefel leol a, thrwy Sportlot, bydd yn cyllido swyddogion datblygu awdurdodau lleol a fydd yn canolbwyntio ar ddatblygu clybiau chwaraeon yn benodol ar gyfer pobl anabl.

## Mynediad i'r Anabl (Adeilad y Cynulliad)

**C25 Carwyn Jones:** Pa waith sydd wedi'i wneud o ran darparu mynediad ar gyfer pobl anabl i adeilad newydd y Cynulliad? (OAQ2109)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i Peter Rogers i gwestiwn a gyflwynwyd ar 16 Tachwedd (OAQ2002JS), y ceir copi ohono isod.

**C20 Peter Rogers:** Sut y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu ymateb i'r pryderon nad oedd darpariaeth ar gyfer mynediad i'r anabl yn nyluniad gwreiddiol adeilad y Cynulliad? (OAQ2002JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr oedd y dyluniad gwreiddiol yn cynnig mynediad i'r anabl, ond gofynnais i bensaer y cynllun feddwl sut y byddai modd gwella ar hyn i ymateb i'r pryderon hynny a leisiwyd gan bobl anabl, Aelodau'r Cynulliad a grwpiau eraill oedd a diddordeb yn y maes. Ar hyn o bryd yr wyf yn ystyried y dewisiadau a gyflwynwyd ganddynt.

Pan fyddaf wedi cael cyfle i ystyried y dewisiadau hyn yn llawn, byddaf yn gofyn am gymeradwyaeth y bwrdd llywio ar y cynlluniau diwygiedig. Yna, byddaf yn rhoi datganiad i'r Aelodau ynghylch yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni.

Bydd grwpiau anabledd a grwpiau eraill sydd â diddordeb yn y maes yn cael cyfle i roi sylwadau ar y dyluniad a goleuo'r broses ddatblygu yn ystod y cyfnod o roi gwybodaeth ac ymwybyddiaeth cyhoeddus sydd yn cael ei gynllunio ar gyfer dechrau'r flwyddyn nesaf.

## Siopau Elusen

**C26 Alison Halford:** Pa gynlluniau cadarn sydd gan y Prif Ysgrifennydd i gynorthwyo siopau elusen yng Nghymru? (OAQ2131)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fe'ch cyfeiriaf at ateb a roddwyd gan Peter Law i OAQ2084JS ar 17 Tachwedd 1999, y ceir copi ohono isod.

**C29 Michael German:** Yn sgîl y ffaith nad oes unrhyw sôn am siopau elusen yn y papur ymgynghorol 'Trethi Busnes: Trefniadau Trosiannol Ailbrisiad 2000', a wnaiff Peter Law roi sicrhad y bydd cymorth y dreth i fusnesau sydd ar gael i siopau elusen yn parhau? (OAQ2084JS)

**Peter Law:** Os bydd siop elusen yn parhau i gyflawni'r gofynion a nodir yn adran 43 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae ganddynt hawl ar hyd at 80 y cant o ostyngiad mandadol fel mater o drefn.

Mae gan yr awdurdodau lleol yr hawl i roi hyd at 100 y cant o ostyngiad dewisol. Nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yr hawl i newid hyn gan fod yr 80 y cant o ostyngiad mandadol wedi ei gadw yn ein deddfwriaeth sylfaenol. Fodd bynnag, yr ydym yn ystyried y posibilrwydd o roi canllawiau wedi eu hadolygu i'r awdurdodau sydd yn egluro'r sefyllfaoedd lle mae gostyngiad gorfodol yn berthnasol.

**Timau Gweithredu ar Alcohol a Chyffuriau**

**C27 Michael German:** Pa sicrwydd all y Prif Ysgrifennydd ei roi y bydd timau gweithredu ar alcohol a chyffuriau yng Nghymru yn cael rhan briodol o'r £3 miliwn o'r elw a atafaelwyd oddi wrth fasnachwyr cyffuriau a gafodd ei ddyrannu i fentrau gwrth-gyffuriau yn ystod y flwyddyn ariannol hon? (OAQ2112)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr oedd cael gwared ar asedau a atafaelwyd oddi wrth fasnachwyr cyffuriau yn un o'r materion a drafodais â chydlynydd atal cyffuriau y Deyrnas Unedig, Keith Hellawell, pan gawsom gyfarfod yr wythnos diwethaf. Fe'm sicrhaodd y bydd cyfran o'r £3 miliwn a ddyrannwyd i fentrau gwrth-gyffuriau yn ystod y flwyddyn ariannol hon yn cael ei ddyrannu i Gymru. Yr wyf wedi gofyn i'r Panel Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Sylweddau, sydd yn cynnwys Cadeiryddion timau gweithredol alcohol a chyffuriau, i gynnig syniadau cychwynnol mewn meysydd a adwaenir fel blaenoriaethau, i ddefnyddio cyfran o'r arian hwn i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Mae'r meysydd hyn o flaenoriaeth yn cynnwys pobl ifainc, merched a lleiafrifoedd ethnig. Amod allweddol y Gronfa Asedau a Atafaelwyd newydd yw ei bod yn cyflwyno cyfraniadau ychwanegol a'i bod yn cynrychioli gwerth da am arian. Mae cynigion eraill yn cael eu hystyried a fyddai o fudd i Loegr a Chymru. Byddwn yn ceisio cynyddu buddiannau posibl y Gronfa yng Nghymru drwy drafodaethau parhaus.